# Capeli Cymru








D HUW OWEN

lluniau MARIAN DELYTH ac eraill

y Lolfa

a'r Lolfa 2005

ntaf: 2005

*nnwys y llyfr hwn*
*hu neu ddefnyddio neu addasu*
*hân i bwrpas adolygu)*
*cyhoeddwyr ymlaen llaw.*

vladol: 0 86243 793 8
Marian Delyth


vyd yng Nghymru gan
Ceredigion SA24 5AP
ylolfa.com
ylolfa.com
) 832304
) 832782

## Cynnwys

**Cyflwyniad** 9
**Diolchiadau** 13
**Rhestr Byrfoddau** 14
1. ABER-CARN, Eglwys Gymraeg (P) 15
2. ABERDÂR, Siloa (A) 17
3. ABERGELE, Mynydd Seion (P) 19
4. ABERGWAUN, Hermon (B) 21
5. ABERHONDDU, Plough (A/R) 22
6. ABERTEIFI, Bethania (B) 24
7. ABERYSTWYTH, Capel y Morfa (P) 26
8. ABERYSTWYTH, Seion (A) 28
9. ABERYSTWYTH, Sant Paul, (W) 30
10. ABERYSTWYTH, Y Tabernacl (P) 32
11. BAE COLWYN, Y Tabernacl (B) 34
12. Y BALA, Capel Tegid (P) 35
13. BANGOR, Berea Newydd (P) 38
14. BANGOR, Pen-dref (A) 39
15. BETHESDA, Jerusalem,
Eglwys Unedig (Un) 41
16. BLAENAU FFESTINIOG, Jerusalem (A)43
17. BLAENANNERCH (P) 44
18. BLAEN-Y-COED (A) 46
19. BOW STREET, Y Garn (P) 47
20. CAERDYDD, Eglwys y Crwys (P) 50
21. CAERDYDD
(Treganna/Canton), Salem (P) 52
22. CAERDYDD, Y Tabernacl (B) 53
23. CAERFYRDDIN, Heol Awst (A) 55
24. CAERFYRDDIN, Heol Dŵr (P) 57
25. CAERFYRDDIN, Y Tabernacl (B) 58
26. CAERNARFON, Ebeneser (W) 61
27. CAERNARFON, Seilo (P) 62
28. CAPEL HENDRE (P) 64
29. CASLLWCHWR, Moreia (P) 66
30. CEFNCYMERAU, Salem (B) 67
31. CILFOWYR (B) 69
32. CLYDACH, Calfaria (B) 71
33. CRICIETH, Berea (B) 72
34. DINBYCH, Capel Mawr (P) 74
35. DINBYCH, Lôn Swan (A) 76
36. DINBYCH, Pendref (W) 77
37. DOLANOG,
Capel Coffa Ann Griffiths (P) 79
38. EFAILISAF, Tabernacl (A) 81
39. EGLWYSILAN, Y Groes-wen (A) 82
40. EIFIONYDD, Capel y Beirdd (B) 84
41. FFYNNONHENRI (B) 86
42. GWAELOD-Y-GARTH, Bethlehem (A)88
43. HENLLAN AMGOED (A) 89
44. HWLFFORDD, Y Tabernacl (CO) 91
45. LLANARMON-YN-IÂL,

## 42. GWAELOD-Y-GARTH, Bethlehem (A)

Cyf. AO: ST 117 836




Codwyd y capel cyntaf yn 1832 yn gangen i eglwys y Taihirion, ar gyrion pentref Gwaelod-y-garth, a saif ar odre mynydd y Garth ychydig i'r gogledd o Gaerdydd yn nyffryn Taf i gyfeiriad Pontypridd. Adeiladwyd y capel presennol, Bethlehem, yn 1872. Mae'n adeilad o gynllun Clasurol plaen â llofft fechan. Mae'r festri ar fin cael ei diwygio a'i haddurno ar gyfer gofynion heddiw. Mae'r pulpud, fel y capel, yn un syml, diaddurn ac mae'n debyg mai dymuniad y gweinidog, y Parch. R G Berry oedd cael pulpud plaen rhag i ddim amharu ar yr Efengyl a gyhoeddid.

Bu ef yn weinidog yma am 48 mlynedd, o 1896 hyd 1944. Hanai o Lanrwst ac roedd yn llenor ac yn arloeswr ym myd y ddrama Gymraeg. Adeg ei sefydlu yn weinidog, pentref gwledig cwbl Gymraeg oedd Gwaelod-y-garth a nifer o'r aelodau yn gweithio mewn glofeydd lleol megis Nantgarw neu yng ngwaith haearn Pen-tyrch. Yn ystod cyfnod hir ei weinidogaeth, llwyddodd i gadw Cymreictod y pentref er gwaethaf y Seisnigeiddio cynyddol yn yr ardaloedd cyfagos. Yn ei deyrnged iddo yn *Y Llenor* (1944), dywedodd W J Gruffydd, y golygydd a chyfaill iddo, ei fod wedi creu 'un o'r eglwysi mwyaf effro a grymus yn yr holl wlad, a phan oedd eglwysi Cymraeg eraill yn y cylch bron yn ddieithriad yn edwino ac yn troi'n Saesneg… cadwodd Bethlehem ei bywyd Cymraeg a'i gweithgarwch, ac edrychid arni fel rhyw oasis gwyrthiol yng nghanol anialwch'. Roedd yr Athro T J Morgan a'r Athro G J Williams yn ddau aelod arall ym Methlehem a fynegodd eu hedmygedd o'r gweinidog. Mae'r capel wedi parhau'n ganolfan Gymraeg bwysig ac yn eglwys fywiog oddi ar y cyfnod hwnnw, ac un arwydd o fywiogrwydd a bwrlwm yr eglwys yw'r negeseuon bachog ac amserol sydd wedi ymddangos dros y blynyddoedd ymhlith cyhoeddiadau eglwysig y *Western Mail.*

Ymhlith gweinidogion eraill Bethlehem roedd y Parchn Gwilym Morris (1947–68), Rhys Tudur (1974–84), a'r Dr T J Davies (1985–2000). Adeg ymddeoliad Dr T J Davies cyfeiriwyd ato mewn cywydd a ganodd Rhys Dafis, un o'r aelodau, ar y thema 'Ha Bach Mihangel':

> 'Eich ha bach, fu'n llonni'ch byd,
> Fu'n haf i ninnau hefyd.'

Y Parch. Gareth E Rowlands yw'r gweinidog er 2002 a disgrifiodd ef Bethlehem yn 'eglwys ifanc a bywiog o'i chymharu â nifer o eglwysi Cymru. Nid yw'n eglwys gymunedol yn yr ystyr bod ei mynychwyr yn ymgartrefu yn y maestrefi cyfagos sydd i'r gogledd o'r ddinas ac sydd o fewn rhyw ddalgylch o tua 16–20 milltir'.

**Gweinidog:** y Parch. Gareth E Rowlands

**Aelodau:** 125

**Ysgol Sul:** 45 o blant a 22 o ieuenctid rhwng 11 a 18 mlwydd oed

**Oedfaon:** 10.30, ac Ysgol Sul yn y festri yn ystod yr oedfa, ac am 6.00 yr hwyr cynhelir CAIB (Cymdeithas Annibynwyr Ifanc Bethlehem)

**Cylch Meithrin:** bob bore

**Cwrdd Merched Bethlehem:** prynhawn Merch… unwaith y mis

**Clwb 'Ti a Fi':** prynhawn Iau

Caiff y capel a'r festri eu defnyddio gan Ysgol Gymr… Gwaelod-y-Garth ar gyfer eu heisteddfod, eu gwasana… Diolchgarwch a charolau'r Nadolig.

***Darllen pellach***

Huw Ethall, *R G Berry* (1985)

odwyd y capel cyntaf yn 1832 yn gangen i eglwys y Taihirion, ar gyrion pentref Gwaelod-y-garth, a saif dre mynydd y Garth ychydig i'r gogledd o Gaerdydd yffryn Taf i gyfeiriad Pontypridd. Adeiladwyd y capel ennol, Bethlehem, yn 1872. Mae'n adeilad o gynllun urol plaen â llofft fechan. Mae'r festri ar fin cael ei ygio a'i hadduro ar gyfer gofynion heddiw. Mae'r pud, fel y capel, yn un syml, diaddurn ac mae'n debyg dymuniad y gweinidog, y Parch. R G Berry oedd l pulpud plaen rhag i ddim amharu ar yr Efengyl a oeddid.

Bu ef yn weinidog yma am 48 mlynedd, o 1896 hyd 44. Hanai o Lanrwst ac roedd yn llenor ac yn arloeswr myd y ddrama Gymraeg. Adeg ei sefydlu yn inidog, pentref gwledig cwbl Gymraeg oedd aelod-y-garth a nifer o'r aelodau yn gweithio mewn feydd lleol megis Nantgarw neu yng ngwaith haearn n-tyrch. Yn ystod cyfnod hir ei weinidogaeth, yddodd i gadw Cymreictod y pentref er gwaethaf y snigeiddio cynyddol yn yr ardaloedd cyfagos. Yn ei yrnged iddo yn *Y Llenor* (1944), dywedodd W J uffydd, y golygydd a chyfaill iddo, ei fod wedi creu n o'r eglwysi mwyaf effro a grymus yn yr holl wlad, a an oedd eglwysi Cymraeg eraill yn y cylch bron yn heithriad yn edwino ac yn troi'n Saesneg... cadwodd thlehem ei bywyd Cymraeg a'i gweithgarwch, ac rychid arni fel rhyw oasis gwyrthiol yng nghanol ialwch'. Roedd yr Athro T J Morgan a'r Athro G J illiams yn ddau aelod arall ym Methlehem a fynegodd hedmygedd o'r gweinidog. Mae'r capel wedi parhau'n olfan Gymraeg bwysig ac yn eglwys fywiog oddi ar y fnod hwnnw, ac un arwydd o fywiogrwydd a bwrlwm eglwys yw'r negeseuon bachog ac amserol sydd wedi ddangos dros y blynyddoedd ymhlith cyhoeddiadau lwysig y *Western Mail*.

Ymhlith gweinidogion eraill Bethlehem roedd y archn Gwilym Morris (1947–68), Rhys Tudur (1974–84), a'r Dr T J Davies (1985–2000). Adeg ymddeoliad Dr T J Davies cyfeiriwyd ato mewn cywydd a ganodd Rhys Dafis, un o'r aelodau, ar y thema 'Ha Bach Mihangel':

> 'Eich ha bach, fu'n llonni'ch byd,
> Fu'n haf i ninnau hefyd.'

Y Parch. Gareth E Rowlands yw'r gweinidog er 2002 a disgrifiodd ef Bethlehem yn 'eglwys ifanc a bywiog o'i chymharu â nifer o eglwysi Cymru. Nid yw'n eglwys gymunedol yn yr ystyr bod ei mynychwyr yn ymgartrefu yn y maestrefi cyfagos sydd i'r gogledd o'r ddinas ac sydd o fewn rhyw ddalgylch o tua 16–20 milltir'.

**Gweinidog:** y Parch. Gareth E Rowlands
**Aelodau:** 125
**Ysgol Sul:** 45 o blant a 22 o ieuenctid rhwng 11 a 18 mlwydd oed
**Oedfaon:** 10.30, ac Ysgol Sul yn y festri yn ystod yr oedfa, ac am 6.00 yr hwyr cynhelir CAIB (Cymdeithas Annibynwyr Ifanc Bethlehem)
**Cylch Meithrin:** bob bore
**Cwrdd Merched Bethlehem:** prynhawn Mercher unwaith y mis
**Clwb 'Ti a Fi':** prynhawn Iau

Caiff y capel a'r festri eu defnyddio gan Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth ar gyfer eu heisteddfod, eu gwasanaeth Diolchgarwch a charolau'r Nadolig.

***Darllen pellach***
Huw Ethall, *R G Berry* (1985)



# 43. HENLLAN AMGOED (A)
## Cyf. AO: SN 179 201

Ymestyn hanes y capel Annibynnol hwn, un o'r hynaf yng Ngorllewin Cymru, yn ôl i'r cyfnod o erledigaeth a ddilynodd Ddeddf Unffurfiaeth 1662 â Stephen Hughes, 'Apostol Sir Gaerfyrddin', yn gweinidogaethu i gynulleidfaoedd bychain. Ymgasglent yn y dirgel yng nghartrefi ei gilydd, ac roedd tair cynulleidfa yn cyfarfod ym mhlwyfi Ciffig, Egremont a Llanboidy, ger ffin siroedd Caerfyrddin a Phenfro. Ond yn dilyn Deddf Goddefiad 1689, a alluogodd Anghydffurfwyr i addoli yn eu capeli eu hunain, sicrhawyd darn o dir addas, mewn man canolog i'r tair cynulleidfa, ar y ffordd yn arwain i'r gogledd o Hendy-gwyn i gyfeiriad Login. Arwyddwyd gweithred ddyddiedig 7 Rhagfyr 1695 ac adeiladwyd capel Henllan yn 1697.

Ailadeiladwyd y capel a'i helaethu yn 1724, ac yna fe'i dymchwelwyd ac adeiladu capel mwy o faint yn 1777. Codwyd capel ehangach eto yn 1830 ac amcangyfrifwyd bod ynddo tua mil o eisteddleoedd. Cofnodwyd yng Nghyfrifiad 1851 fod cynulleidfa o 550 yno ar fore Sul, 30 Mawrth, a 145 yn mynychu'r Ysgol Sul yn y prynhawn. Dywedodd y gweinidog, y Parch. Joshua Lewis, nad oedd y gynulleidfa yn amrywio llawer o Sul i Sul, ac na fyddai gwahaniaeth mawr y Sul canlynol na'r un yn dilyn hynny. Gosodwyd organ yn y capel yn 1902 a thalwyd swm o £230.9s amdani i Peter Conacher a'i Gwmni, Huddersfield. Symudwyd yr organ pan adnewyddwyd y capel yn 1927–8, ac roedd y newidiadau sylweddol eraill a wnaed dan gyfarwyddyd y pensaer J. Howard Morgan, Caerfyrddin, mab y pensaer George Morgan, yn cynnwys addasiadau i'r wedd allanol. Y tu